



# YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP

LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW

POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK

WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU

@YGGLLANGYNWYD

01656 815700

01656 815701

## Athro/awes y Technolegau Digidol Swydd dros dro am flwyddyn yn y lle cyntaf Graddfa Gyflog Athrawon I gychwyn Medi 2021

Dyma gyfle arbennig i ymuno ag ysgol flaengar a llwyddiannus. Mae gennym dîm brwdfrydig a thalentog o staff sydd yn ymroi'n llwyr i gynnal y safonau uchaf o ddysgu ac addysgu a chyflawniad ein dysgwyr. Mae'r ysgol ar drothwy cyfnod cyffrous wrth iddi baratoi a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal ag ymateb i'r twf mewn addysg Gymraeg o fewn sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae adran y Technolegau Digidol yn rhan o'r Maes y Gwyddorau a'r Technolegau, gyda'r Uwch Arweinydd Maes hefyd yn athro arbenigol o fewn yr adran. Mae'r adran yn un llwyddiannus a phoblogaidd ymhlith ein dysgwyr, sydd yn cynnal y safonau uchaf o gyflawniad ac yn tanio'u brwdfrydedd yn y pwnc. Rydym yn chwilio am berson blaengar, brwdfrydig, ymroddgar ac egniol i ymuno â'r adran. Dyma gyfle i unigolyn sydd â gradd TGCh/Cyfrifiadureg, neu sydd â diddordeb yn y maes, neu sydd wedi hyfforddi fel athro cynradd. Rydym wedi hyfforddi di-arbenigwr yn y gorffennol i drosi i ddod yn athro arbenigol TGCh ac yn cychwyn fel arweinydd digidol mewn ysgol 3-16 arall. Croesawn felly geisiadau gan ddi-arbenigwyr o fewn y pwnc, sydd â'r gallu a diddordeb i ddatblygu fel aelod allweddol o dîm yr adran, maes a'r ysgol. Rydym yn ysgol bartner gyda Phrifysgol Met Caerdydd a'r Brifysgol Agored ac yn dathlu'n rhaglen ddatblygiad proffesiynol parhaus i'n staff, boed yn yr ysgol, fel rhan o'n partneriaethau proffesiynol gydag ysgolion uwchradd eraill, neu'r prifysgolion hyfforddiant addysgu.

Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yw unig ysgol gyfun Gymraeg sir Pen-y-bont ar Ogwr ac o ganlyniad i'n perfformiad da, fe'i cydnabyddir fel ysgol sydd â safonau uchel a gweledigaeth glir. Lleolir yr ysgol i'r de o bentref hanesyddol Llangynwyd, llai na 10 munud o gyffordd 36 yr M4. Mae iddi gysylltiadau rhwydd o Abertawe i'r gorllewin (llai na 30 munud) a Chaerdydd i'r dwyrain (25 munud).

Dyma gyfle arbennig i ddatblygu gyrfa a chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad yr ysgol gyfan gan fodloni blaenoriaethau cenedlaethol.

Disgwylir i berson sy'n ymgeisio ar gyfer y swydd fodloni'r gofynion isod:

- meddu ar gymwysterau a/neu brofiad priodol ar gyfer addysgu mewn ysgol uwchradd, cynradd neu bob oed;
- meddu ar sgiliau cyfathrebu da iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- meddu ar sgiliau TGCh da iawn;
- gallu gweithio fel rhan o dîm;
- dangos ymroddiad i gefnogi datblygiad ieithyddol a diwylliannol dysgwyr drwy weithgareddau allgyrsiol;
- ymrwymo'n llawn i gynllun datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol ac ymgymryd â gwaith ymchwil personol fel rhan o'r safonau proffesiynol newydd.

Os hoffech ymuno â ni yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, lawrlwythwch y ffurflen gais oddi ar wefan E-teach. Os ydych am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r ysgol i siarad ag aelod o'r Uwch Dîm Arwain.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **9:00am Dydd Mawrth 20 Ebrill 2021**

*This is an advertisement for the post of a Digital Technologies Teacher. The ability to communicate fluently in Welsh is essential.*

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .

